PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 16 IONAWR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Molik(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lent, Lewis, Littlechild a/ac McGarry |

36 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

37 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Dim datganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

38 : CYMORTH CYNGOR CAERDYDD Â CHOSTAU BYW I DRIGOLION

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, sef i Aelodau ystyried adroddiad drafft ymchwiliad y grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gymorth y Cyngor i drigolion gyda chostau byw. Cafodd yr aelodau wybod y gofynnwyd am geisiadau diwygio gan aelodau perthnasol o'r Weithrediaeth a'u bod wedi'u nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lewis i wneud datganiad, lle cafodd gyfle i ddweud diolch i'r tîm ymchwiliad, yr holl randdeiliaid a fu'n ymwneud â gwaith y tîm, a'r timau cyngor am eu gwaith, a diolchodd yn bersonol i aelodau'r tîm ymchwiliad.

Cafodd aelodau wybod bod y grŵp wedi gwneud argymhellion ynghylch y broses o wneud penderfyniadau'n fewnol, diogelwch cyflogaeth staff, y model lleol, cynyddu gwaith gyda sefydliadau allanol, cryfhau cefnogaeth iechyd meddwl, ac ehangu'r ddarpariaeth cymorth.

Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau, ac mae'r drafodaeth wedi'i chrynhoi isod.

Canmolodd yr aelodau yr adroddiad gan fynegi eu bod yn fodlon gyda'r diwygiadau, ac eithrio'r canlynol:

- Awgrymodd yr aelodau y gallai'r diwygiad i Ddarganfyddiad Allweddol 2 gael ei addasu i gynnwys datganiad yn nodi bod y tîm yn cydnabod y gallai fod angen cyllid allanol oherwydd diffyg cyllideb y Cyngor.

- Mynegodd aelodau bryder am ychwanegu'r geiriau '2-3 awr o amser aros am gyngor arbenigol' yn Narganfyddiad Allweddol 11 ac awgrymodd y dylai nodi '2-3 awr o aros' heb gyfeirio at gyngor arbenigol.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar y posibilrwydd o sefydlu Partneriaeth Cymdogaeth a fyddai'n caniatáu i bartneriaid rannu gwybodaeth am gefnogaeth leol, y cyfeirir ati yn Argymhelliad 8. Cafodd yr aelodau wybod mai'r rheswm dros hynny oedd cryfhau'r gwaith o ymgysylltu â phartneriaid allanol, a oedd wedi mynegi awydd am fwy o gefnogaeth i hyrwyddo'r

gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig. Gwnaed y pwynt bod sefydliadau partner allanol yn aml yn meddu ar berthynas o ymddiriedaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth mewn cymunedau penodol.

- Mynegodd aelodau'r farn y dylid cael argymhelliad i osod targedau i leihau amseroedd aros, naill ai drwy sesiynau rhithwir neu gryfhau gwaith gyda sefydliadau partner allanol.

- Awgrymodd aelodau y dylid ychwanegu argymhelliad ar sicrhau amrywiaeth o fewn y gweithlu i hyrwyddo a chryfhau ymgysylltiad gyda gwahanol gymunedau.

PENDERFYNWYD:

Awdurdodi aelodau o’r tîm ymchwiliad i benderfynu ar y diwygiadau i'w derbyn, ac a oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach, cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i’w trafod.

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Llun 27 Chwefror am 2pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.16 pm